# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

1. Rydw i o dan 18, felly mae'r hawliau yma i fi



2. Mae gen i'r hawliau yma beth bynnag sy'n digwydd

3. Rhaid i unrhyw benderfyniadau ystyried beth sydd orau i fi

4. Rhaid i fy Llywodraeth wneud yn siŵr mod i'n cael mynediad at fy holl hawliau

5. Rhaid i fy rhieni/ngofalwyr gael cefnogaeth i mi allu cael mynediad at fy holl hawliau

6. Mae gen i hawl i fywyd

7. Mae gen i hawl i enw a chenedl

8. Mae gen i hawl i hunaniaeth

9. Mae gen i hawl i fyw gyda fy nheulu, os dyna sydd orau i fi

10. Mae gen i hawl i weld fy nheulu os nad ydyn nhw'n byw gyda fi

11. Mae gen i hawl i beidio â chael fy nghymryd allan o'm gwlad yn anghyfreithlon

12. Mae gen i hawl i gael fy marn wedi'i chlywed a'i chymryd o ddifri

13. Mae gen i hawl i fynegi fy hunan

14. Mae gen i hawl i'm meddyliau, fy nghred a'm crefydd fy hun

15. Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau



16. Mae gen i hawl i breifatrwydd



17. Mae gen i hawl i gael mynediad at wybodaeth ddibynadwy

18. Mae gen i hawl i gael fy magu gan y ddau riant os yw hynny'n bosib

19. Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag trais, camdriniaeth neu esgeuluso

20. Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n methu byw gyda'm teulu fy hun

21. Mae gen i hawl i'r gofal gorau os caf fy mabwysiadu

22. Mae gen i hawl i gael gofal ac amddiffyniad os wyf fi'n ffoadur

23. Mae gen i hawl i amddiffyniad a chefnogaeth arbennig os oes gen i anabledd

24. Mae gen i hawl i ofal iechyd da

25. Os wyf fi ar wahân i'm teulu, rhaid adolygu fy nhriniaeth a'm gofal yn rheolaidd

26. Rhaid i'm teulu gael help ariannol os bydd angen hynny arnyn nhw

27. Mae gen i hawl i fwyd, dillad, a chartref glân, diogel

28. Mae gen i hawl i addysg

29. Mae gen i hawl i gyrraedd fy mhotensial llawn

30. Mae gen i hawl i ddysgu am fy niwylliant, fy arferion, fy iaith a'm crefydd

31. Mae gen i hawl i ymlacio, chwarae, a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol

32. Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag gwneud gwaith peryglus

33. Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cyffuriau anghyfreithlon



34. Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cam-drin rhywiol

35. Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy nghipio, fy ngwerthu a'm masnachu



36. Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed



37. Rhaid i fi gael fy nhrin â pharch a gofal os caf fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith

38. Rhaid i mi beidio ag ymuno â'r fyddin nes mod i'n 15 oed o leiaf

39. Mae gen i hawl i help ychwanegol os wyf fi wedi cael fy anafu, fy esgeuluso, neu fy nhrin yn wael

40. Os bydda i'n cael fy nghyhuddo o dorri'r gyfraith, mae gen i hawl i help cyfreithiol ac i gael fy nhrin yn deg

41. Os oes gan fy ngwlad gyfreithiau ychwanegol i amddiffyn plant, rhaid eu dilyn nhw

42. Mae gen i hawl i wybod am fy holl hawliau

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES
CYMRU IFANC
YOUNG WALES